# Hwyl wrth Ddarllen 1



# Cathod

Tîm ADY Penodol / ALN (specific) Team

Tîm ADYP

## Pecyn Darllen Anifeiliaid

Gweithgareddau i rannu gyda'ch plentyn - fesul dipyn bach bob dydd. 'Does dim angen rhuthro drwy'r pecyn.

Cofiwch gadw'r gweithgareddau yn hwyliog ac ysgafn fel nad oes laru ar y "gwaith".

### Y darn darllen

Darllenwch GYDA'ch plentyn i ddechrau—wedyn y plentyn i ddarllen ar ben ei hun lle bo hyn yn bosib..

Os mae'r tesun yn rhy anodd— gall eich plentyn "smalio bod yn athro" a phwyntio at y geiriau i chi eu darllen.

Stopiwch ar ôl pob brawddeg a MEDDWL am yr ystyr.

EGLURWCH geiriau newydd.

Ydy eich plentyn yn gallu ail-adrodd y testun yng ngeiriau ei hun?

Gofyn ac ateb cwestiynau ar y diwedd: ydy eich plentyn yn gallu meddwl am gwestiynau i ofyn? (sgil anodd!)

Dylid ail- ddarllen y testun bob hyn a hyn i hybu hyder eich plentyn. Defnyddiwch leisiau gwahanol, doniol ac annog eich plentyn i wneud hefyd — hwyl , hwyl , hwyl!

Nid oes raid printio neu gwblhau pob tudalen— croeso i chwi ddewis a dethol yn ôl diddordeb a gallu eich plentyn.

Gweithgareddau ychwanegol :

- Ymchwilio gwybodaeth am yr anifail arlein; clipiau fideo ; cwis arlein
- Celf a chrefft— masgiau neu pyped anifail; tynnu llun/ paentio'r anifail . Mae digon o syniadau ar lein—"How to draw a carton cat"; origami ; dylunio cartref i'r anifail ; papier machê neu clai / toes blawd
- Creu llyfr prosiect / poster
- Eisio creu siâp yr anifail allan o flociau / lego/ botymau / pasta
- Creu gêm pâr efo'r lluniau gair a llun—angen printio ddwywaith a gludo ar gardyn; rhoi'r cardiau mewn rhes , wyneb i waered—fedr eich plentyn gofio'r drefn? Fedrwch chi?!

Mae'r syniadau'n ddi-ri! Rhannwch efo rhieni eraill sydd â diddordeb!

# Cathod



Mae cathod yn byw ledled y byd ac yn anifail anwes i lawer o bobl.

Mae yna gathod o bob lliw a maint.

Ffwr esmwyth fel sidan sydd gan y gath.


Mae'r gath yn hoffi cysgu mewn lle cynnes.

Mae cath anwes yn bwyta cig allan o dun.

Mae'r gath yn hela anifeiliaid ac adar yn yr ardd.

Wyddoch chi …?

- Mae'r gath yn perthyn i deulu'r llew a'r teigr
- Mae cathod yn ymolchi yn aml.
- Gall y gath weld yn dda iawn yn y tywyllwch.
- Mae gan y gath ddannedd miniog i dorri a rhwygo cig






Tîm ADYP

Gwir neu gau? Gallwch dorri'r cardiau a'u darllen efo'ch plentyn. Y plentyn i benderfynu os yw'r frawddeg yn wir neu ddim a'i rhoi yn y gist gywir.


| | | |
|---|---|---|
| Mae cathod yn bwyta cig. | Mae cathod yn bwyta papur. | Anifail anwes yw'r gath. |
| Mae'r llew yn perthyn i deulu'r gath. | Mae'r ci yn perthyn i deulu'r gath. | Mae cathod yn byw led led y byd. |
| Dim ond yn Affrica mae cathod yn byw. | Mae gan gathod ffwr esmwyth. | Mae cathod yn hoffi bod mewn lle oer. |
| Mae cathod yn hoffi cysgu mewn lle cynnes. | Mae'r teigr yn perthyn i deulu'r cathod. | Hoff fwyd y gath yw bisgedi. |


Gwir


Gau

Deall geiriau / gêm pâr / cofio'r lluniau mewn trefn

## cathod



## esmwyth



## anifeiliaid anwes



## perthyn



## tywyllwch



## rhwygo



*Tîm ADYP*

Map meddwl i helpu eich plentyn gynllunio neu gofnodi darn o waith. Nid oes angen brawddegau llawn , dim ond nodiadau. Mae lluniau yn dderbyniol os nid yw ysgrifennu'n hawdd i'ch plentyn. Trefnu meddyliau yw'r nôd!

**Beth yw cath?** Anifail (mamal? aderyn ? Pysgodyn?)

Pa anifeiliaid eraill sy'n debyg i'r gath?

Ble mae cathod yn byw?

Beth arall fedri di ddweud am gathod?



Beth sydd gan y gath? *Cynffon etc*

Beth mae cathod yn gallu gwneud?

Beth mae cathod yn bwyta?

*Tîm ADYP*

Darllenwch y geiriau i ddechrau. Ydy'ch plentyn yn deall y geiriau? Fedr eich plentyn egluro ystyr y geiriau (anodd!) Fedrwch chi feddwl am frawddeg yn cynnwys y gair?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| p | e | r | t | h | y | n | a | q | w |
| a | s | d | y | r | u | s | n | z | j |
| c | m | c | w | h | j | k | w | z | e |
| a | w | p | y | w | h | u | e | f | c |
| t | y | u | l | y | r | d | s | k | o |
| h | t | z | l | g | t | k | u | n | u |
| o | h | r | w | o | e | o | c | t | b |
| d | v | x | c | u | b | l | b | c | z |
| e | p | n | h | r | q | v | u | y | k |
| o | g | c | e | x | l | o | n | u | d |

**perthyn**

**anwes**

**rhwygo**

**tywyllwch**

**esmwyth**

**perthyn**





Tîm ADYP

Gallwch dorri'r cardiau i adeiladu brawddegau a'u darllen efo'ch plentyn. Y plentyn i benderfynu os yw'r frawddeg yn gwneud synnwyr!

| | | |
|---|---|---|
| 1<br>Mae cathod | **2**<br>yn bwyta | 3<br>cig. |
| 1<br>Mae cathod | 2<br>yn hoffi | 3<br>lle cynnes. |
| 1<br>Mae cathod | **2**<br>yn byw ledled | 3<br>y byd. |
| 1<br>Mae cathod | **2**<br>yn perthyn i'r | 3<br>llew a'r teigr. |
| 1<br>Mae cathod | **2**<br>yn hela | 3<br>adar. |

Cofiwch ysgrifennu mewn prif-lythrennau!






**Ar draws**

**3.** bwyd y gath

**4.** bod yn rhan o rywbeth

**6.** torri rhywbeth efo dannedd

**7.** anifail arall sy'n perthyn i'r gath

**I lawr**

**1.** Sut ffwr sydd gan y gath?

**2.** anifail mawr gwyllt o Affrica

**3.** mwy nag un cath

**5.** Mae cathod yn hoffi lle ------

PERTHYN CIG LLEW TEIGR RHWYGO ESMWYTH CATHOD CYNNES

*Tîm ADYP*


Her dysgu ar y cof!

"Pwsi Meri Mew,
Ble collaist ti dy flew?"
"Wrth gario tân i Modryb Sian
Drwy'r eira mawr a'r rhew."

"Pwsi Meri Mew,
Ble llosgaist ti dy flew?"
"Wrth orwedd ar yr aelwyd
a'r lludw wrth y tân,
am nad oedd Modryb Gaenor
yn cadw ei thŷ yn lân."




https://savedyouaspot.com/2019/01/16/5-benefits-for-children-learning-poetry-by-heart/





Tìm ADYP




Lliwio



Tim ADYP

# Jig sô

sgiliau torri a gludo



Tîm ADYP

CYMESUREDD / SYMMETRY—Gorffennwch y llun


LLAW DDE



LLAW CHWITH



CAT
MASK





Tim ADYP